

Arolygiad o Wasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Canolfan Adferiad Gellinudd

Hafal

Dyddiad arolygu: 22 – 24

Gorffennaf 2019

Dyddiad cyhoeddi: 24 Hydref
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|--|-------------------------------------|
| 1. | Yr hyn a wnaethom | 5 |
| 2. | Crynodeb o'n harolygiad | 6 |
| 3. | Yr hyn a nodwyd gennym..... | 7 |
| | Ansawdd profiad y claf | 8 |
| | Darparu gofal diogel ac effeithiol | 13 |
| | Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth..... | 21 |
| 4. | Beth nesaf? | 24 |
| 5. | Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol | 25 |
| | Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad . | 26 |
| | Atodiad B – Cynllun gwella..... | Error! Bookmark not defined. |

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal iechyd o ansawdd da

Ein gwerthoedd

Rydym yn rhoi cleifion wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol
- Gwrthrychol
- Gofalgar
- Cydweithredol
- Awdurdodol

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaeth iechyd meddwl annibynnol Canolfan Adferiad Gellinudd gyda'r nos ar 22 Gorffennaf ac yn ystod y dydd ar 23 a 24 Gorffennaf 2019. Ymwelwyd â'r safleoedd a'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Canolfan Adferiad Gellinudd

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau arolygydd o AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un ohonynt oedd yr adolygwr enwebedig o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Yn ystod yr arolygiad hwn, adolygwyd dogfennaeth ar gyfer cleifion a gadwyd o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaeth â'r Ddeddf.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 ac yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru. Lle y bo'n briodol, mae AGIC hefyd yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl (1983), y Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) (2010), y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005) a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ceir manylion pellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth fod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol mewn amgylchedd dymunol. Dangosodd y gwasanaeth bwyslais ar ofal sy'n canolbwyntio ar y cleifion.

Roedd y gofal yn canolbwyntio ar adfer ac yn rhoi ystyriaeth sylweddol i urddas ac annibyniaeth y cleifion.

Fodd bynnag, gwelsom rywfaint o dystiolaeth nad oedd yr ysbyty'n cadw cofnodion clinigol i'r safon a ddisgwylir.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Tystiolaeth dda o'r ffordd y mae'r tîm rheoli yn mentora myfyrwyr ar y wardiau
- Trefniadau llywodraethu sefydledig a oedd yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol
- Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio rhwng aelodau o'r staff a'r cleifion a oedd yn gadarnhaol ac yn dangos parch
- Amrywiaeth o gyfleusterau addas mewn amgylchedd gofal dymunol, a oedd yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda
- Cyflwyno staff cymorth cymheiriaid, wedi'u hwyluso gan y rhaglen hyfforddiant mentora cymheiriaid.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu prosesau ynghylch botymau galw brys a lleoliad botymau panig
- Y wybodaeth a arddangosir yn yr ysbyty ar gyfer cleifion ac ymwelwyr
- Cwblhau dogfennaeth glinigol
- Rhoi'r Ddeddf Iechyd Meddwl ar waith.

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Canolfan Adferiad Gellinudd wedi'i chofrestru i ddarparu gwasanaeth adfer annibynnol ar gyfer iechyd meddwl yng Nghanolfan Adferiad Gellinudd, Lôn Catwg, Gellinudd, Pontardawe, Castell-nedd Port Talbot, SA8 3DX.

Mae gan y gwasanaeth 16 o welyau i gyd, wedi'u rhannu ar draws 5 ward: Ystafell y Ddôl, dau wely; Ystafell y Gwanwyn, tri gwely; Ystafell yr Haf, pedwar gwely; Ystafell yr Hydref, pedwar gwely; ac Ystafell y Gaeaf, tri gwely.

Ysbyty rhyw cymysg yw Canolfan Adferiad Gellinudd sydd â wardiau rhyw benodol. Ar adeg yr arolygiad, roedd pum claf yno.

Cafodd y gwasanaeth ei gofrestru am y tro cyntaf ar 3 Mawrth 2017 ac agorodd ar 31 Mai 2017.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys rheolwr y ganolfan adfer, seiciatrydd, seicotherapydd, tîm o nyrsys iechyd meddwl a nyrsys cyffredinol cofrestredig, gweithwyr cymorth cymheiriaid¹ ac ymarferwyr adfer². Cynorthwywyd gweithrediad yr ysbyty o ddydd i ddydd gan dimau dynodedig o staff gweinyddol.

Mae'r darparwr cofrestredig yn amlwg wedi ystyried yr iaith a gaiff ei defnyddio yn y gwasanaeth. Canolfan Adferiad Gellinudd yw enw'r ysbyty a chyfeirir at y cleifion fel gwesteion a'r gweithlu fel ymarferwyr. Bydd yr adroddiad hwn yn defnyddio terminoleg Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru, h.y. ysbyty, staff a chleifion.

¹ Aelodau o'r staff sydd â chysylltiad blaenorol â gwasanaethau iechyd meddwl.

² Staff sy'n darparu gofal uniongyrchol i gleifion ond nad ydynt wedi'u cofrestru'n broffesiynol, a elwir yn weithwyr gofal iechyd yn aml.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Gwelsom y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd digon o gyfarpar yn yr ysbyty ac roedd wedi'i ddodrefnu i safon uchel a oedd yn darparu amgylchedd gofal dymunol iawn.

Roedd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddefnyddio gwasanaethau cymunedol lleol fel rhan o'r gofal adsefydlu. Roedd y cleifion yn cael eu hannog i gymryd rhan ac roeddent yn cael eu cefnogi i fod mor annibynnol â phosibl mewn amrywiaeth o weithgareddau.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gan yr ysbyty amrywiaeth o gyfleusterau, a oedd mewn cyflwr da, er mwyn helpu i ddarparu therapiau a gweithgareddau. Roedd y cyfleusterau hyn yn cynnwys ystafell weithgareddau benodol gydag adnoddau priodol a mynediad i ardd fawr a oedd yn cynnwys ardal dawel a therapiwtig ar wahân.

Roedd y cleifion yn cael aelodaeth i gampfa leol a chyfleusterau hamdden eraill yn y gymuned leol y gallent eu defnyddio pan oeddent yn absennol o'r ysbyty yn unol ag Adran 17³. Roedd y staff yn gallu defnyddio dau gerbyd ysbyty dynodedig a oedd yn golygu y gallent fynd â'r cleifion i weithgareddau ac apwyntiadau meddygol yn y gymuned.

Gallai'r cleifion fynd i'r gegin fel y dymunant ac roeddent yn cael eu hannog i gynllunio a pharatoi eu prydau eu hunain gyda chymorth gan y staff. Roedd hyn yn rhoi'r cyfle i'r cleifion fynegi barn ar yr hyn yr oeddent yn ei fwyta bob dydd. Roedd yr holl gleifion a'r staff wedi cael hyfforddiant hylendid bwyd priodol. Roedd hefyd yn braf nodi bod gan y ganolfan adfer sgôr hylendid bwyd o 5, sy'n

³ Mae absenoldeb o dan Adran 17 yn caniatáu i glaf sy'n cael ei gadw adael yr ysbyty

adlewyrchu safonau ardderchog wrth baratoi a storio bwyd, ynghyd â glendid y gegin a'r ardaloedd storio. Roedd y cleifion hefyd yn gallu defnyddio'r ystafell golchi dillad gyda chymorth goruchwyliol. Gallai'r cleifion ddefnyddio peiriant golchi dillad, peiriant sychu dillad, haearn smwddio a bwrdd smwddio yn yr ystafell golchi dillad. Roedd hyn yn dangos athroniaeth y ganolfan adfer yn glir, sef grymuso'r cleifion i fod yn fwy annibynnol.

Drwy gydol yr arolygiad gwnaethom gasglu gwybodaeth gan y staff a'r cleifion, ac aethom i gyfarfodydd hefyd. Cawsom wybod gan y staff fod y cleifion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau a'u bod yn cynllunio digwyddiadau, megis teithiau cerdded ar y traeth ac ymweliadau â'r sinema, a gafodd eu trafod yn ystod y cyfarfodydd yr aethom iddynt. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden yn yr ysbyty ar adeg yr arolygiad. Roedd amrywiaeth o adnoddau ar gael i'r cleifion, a oedd yn cynnwys teledu rhyngweithiol yn y brif ardal gymunedol. Yn ogystal, roedd gan yr ysbyty offer tennis bwrdd, posau jig-so, gemau bwrdd a beic ymarfer er mwyn i'r cleifion allu cadw'n heini yn yr ysbyty.

Pan oeddent yn cyrraedd yr ysbyty, roedd y cleifion yn cael "taflen gwybodaeth i westeion" fanwl a oedd yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth ynghylch eu harhosiad yn yr ysbyty. Roedd y daflen wybodaeth yn dweud bod siop ar gael yn yr ysbyty, ond nid oedd hyn yn wir. Ar ôl adolygu'r llyfryn gwybodaeth i westeion, gwnaethom gynghori'r darparwr cofrestredig i adolygu'r wybodaeth er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn gywir ac yn adlewyrchu'r gwasanaethau presennol sydd ar gael i'r cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddiweddarau'r llyfryn gwybodaeth i gleifion er mwyn adlewyrchu'r gwasanaethau presennol sydd ar gael i'r cleifion.

Urddas a pharch

Nodwyd bod pob cyflogai, staff y ward, uwch-reolwyr a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch. Roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo'n angerddol am eu rolau ac yn frwdfrydig ynghylch y ffordd yr oeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt.

Clywsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd digynnwrf drwy gydol ein harolygiad. Gwelsom fod y staff yn trin y cleifion â pharch; pan oedd y cleifion

yn mynd at yr aelodau o'r staff, roeddent yn cael eu trin mewn ffordd gwrtais ac ymatebol.

Roedd gan bob claf ei ystafell wely ei hun y gallai fynd iddi drwy gydol y dydd. Roedd yr ystafelloedd gwely yn cynnig safon dda o breifatrwydd ac urddas i'r cleifion. Roedd gan y cleifion ddyfeisiau agor drws electronig er mwyn mynd i mewn i'w wardiau ac i'w hystafelloedd gwely unigol. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y darparwr cofrestredig wedi rhoi llawer o feddwl i olwg y paneli arsylwi ar ddrysau'r ystafelloedd gwely – lluniau dymunol a oedd yn cynrychioli enw'r ystafell – a oedd yn golygu bod y ward yn edrych yn llai clinigol. Roedd drysau'r ystafelloedd gwely yn cloi'n awtomatig wrth eu cau a oedd yn rhwystro cleifion eraill rhag cael mynediad, ond gallai'r staff ddatgloi'r drysau os oedd angen. Gwnaethom hefyd arsylwi ar y staff yn curio ar ddrysau'r cleifion cyn mynd i mewn iddynt a oedd yn dangos bod y staff yn parchu preifatrwydd ac urddas y cleifion. Roedd paneli arsylwi'n cael eu defnyddio i gadw llygad ar y cleifion yn ystod y nos. Roedd goleuadau a weithredwyd drwy ddyfeisiau clicio ar gael hefyd a oedd yn golygu y gallai'r staff gynnal arsylwadau'n effeithiol yn ystod y nos heb darfu'n ddiangen ar y cleifion. Roedd sawl ystafell ar gael lle gallai'r cleifion gael sgysiau preifat â'r staff. Roedd y cleifion yn gallu defnyddio eu ffonau symudol eu hunain a gallant ddefnyddio ffôn sefydlog yn yr ysbyty hefyd.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom arsylwi ar aelodau o'r teulu yn ymweld â'r cleifion ac yn treulio amser gyda nhw mewn amrywiaeth o leoliadau ym mhob rhan o'r ysbyty. Roedd yr ystafell ymweld i blant, Katkins, wedi'i dodrefnu'n arbennig gydag amrywiaeth o deganau a gweithgareddau i blant. Roedd yn gadarnhaol iawn gweld bod gan yr ystafell ymweld i blant ei gardd ddiogel ei hun hefyd gyda theganau awyr agored a oedd yn darparu adnoddau addas ar gyfer plant sy'n ymweld â'r ganolfan.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd bwrdd gwybodaeth yn yr ardal gymunedol a oedd yn darparu gwybodaeth briodol a pherthnasol i'r cleifion, gan gynnwys posteri a thafleuni ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo nad oedd y bwrdd yn cynnwys digon o wybodaeth ar gyfer teuluoedd ac ymwelwyr. Er enghraifft, roedd amseroedd ymweld wedi'u cynnwys yn y llyfryn gwybodaeth i ymwelwyr, ond nid oedd teuluoedd/ymwelwyr yn cael copi o hwn oni bai eu bod yn gofyn yn benodol am un. Roedd posteri a thafleuni ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu harddangos hefyd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bwrdd gwybodaeth yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar gyfer teuluoedd ac ymwelwyr.

Cyfathrebu'n effeithiol

Drwy arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod y staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu'n briodol ac yn effeithiol â'r cleifion. Roedd y staff yn cymryd amser i gynnal trafodaethau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas i bob claf. Lle roedd y cleifion yn cael anhawster o hyd i egluro rhywbeth, neu lle roedd yr hyn roedd claf yn ceisio ei gyfleu yn cael ei gamddeall, byddai'r staff yn ceisio gofyn yn amyneddgar am eglurhad o'r hyn yr oedd wedi'i ddweud.

Mae rhai aelodau o'r staff sy'n gweithio yn yr ysbyty yn gymheiriaid mentora sydd wedi cwblhau hyfforddiant achrededig i fentoriaid. Mae gan y staff hyfforddedig eu profiadau personol eu hunain o ymdrin ag afiechyd meddwl ac adfer. Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom arsylwi ar y staff yn gwrando ar y cleifion ac yn rhannu profiadau er mwyn helpu'r cleifion i drafod a deall eu taith eu hunain yn y broses adfer.

Gwnaethom arsylwi ar nifer o gyfarfodydd lle trafodwyd trefniadau ar gyfer gweithgareddau dyddiol a dyrannwyd gweithgareddau penodol i'r cleifion ar gyfer y diwrnod, yn yr ysbyty ac yn y gymuned. Trafodwyd cyfarfodydd cynllunio gofal, apwyntiadau meddygol a thribiwnlysoedd yn y cyfarfodydd hyn hefyd. Hefyd, roedd cyfarfod gyda'r nos lle gallai'r cleifion unwaith eto drafod unrhyw faterion ynghylch yr ysbyty.

Buom yn bresennol mewn nifer o gyfarfodydd clinigol, ac roedd yn amlwg bod trafodaethau'n canolbwyntio ar yr hyn a oedd orau i'r claf unigol. Pan oedd y claf yn bresennol yn y cyfarfod, roedd pob aelod o'r staff yn ymgysylltu ag ef mewn ffordd barchus ac yn gwrando ar ei safbwyntiau, gan roi rhesymau clir iddo dros y penderfyniadau a wnaed.

Roedd y cleifion a'r ymwelwyr yn gallu defnyddio sgrin electronig ger y fynedfa i'r ardal gymunedol lle gallent gwblhau arolygon byr a rhoi adborth ar yr ysbyty. Roedd cardiau diolch wedi'u harddangos yn yr ardal gymunedol hefyd.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd ffocws clir ar roi gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion, gyda chymau pwylllog er mwyn iddynt gymryd risgiau cadarnhaol a'u cyflwyno i beryglon bach. Roedd gofal yn cael ei addasu ar gyfer yr unigolyn, roedd yn canolbwyntio ar adfer ac roedd yn cael ei roi ar sail arferion lleiaf cyfyngol, o ran cynllunio gofal ac o ran arferion yr ysbyty. Roedd tystiolaeth glir yn nodiadau'r cleifion a archwiliwyd gennym fod y cleifion yn cael eu cynnwys yn weithredol yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth.

Roedd gan bob claf ei gynllunydd gweithgareddau unigol ei hun. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau unigol a grŵp, wedi'u lleoli yn yr ysbyty ac yn y gymuned (pan oedd yr awdurdodiad angenrheidiol wedi cael ei roi). Roedd y gweithgareddau yn amrywiol ac yn canolbwyntio ar wella.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd ymarfer y staff, a oedd yn gyson â pholisïau a systemau sefydledig yr ysbyty, yn sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau'r cleifion yn cael eu cynnal.

Roedd papurau cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi'u cwblhau'n gywir er mwyn cadw cleifion yn yr ysbyty. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig wneud gwelliannau i'r ffordd y caiff y Ddeddf ei chymhwyso er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan y Ddeddf ac fel y'u nodwyd yng Nghod Ymarfer Cymru 2016 ar y Ddeddf Iechyd Meddwl. Amlinellir y rhain yn ddiweddarach yn yr adroddiad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth dinasyddion

Cynhaliwyd cyfarfodydd cleifion ac arolygon rheolaidd er mwyn eu galluogi i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd y llyfryn gwybodaeth i westeion yn cynnwys manylion am sut gall y cleifion gyflwyno cwynion ac roedd hefyd yn cynnwys gwybodaeth briodol a manylion cyswllt ar gyfer AGIC. Roedd poster gyda manylion proses gwyno'r ysbyty wedi'i arddangos hefyd.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda gyda dodrefn, gosodiadau a ffitiadau addas ar gyfer y grŵp cleifion.

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risg, iechyd a diogelwch, rheoli meddyginiaethau a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Fodd bynnag, dylai'r ysbyty adolygu ei brosesau ynghylch botymau galw brys a lle caiff y larymau eu gosod.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd gan Ganolfan Adferiad Gellinudd brosesau sefydledig ar waith i reoli ac adolygu risgiau a chynnal iechyd a diogelwch yn yr ysbyty. Roedd hyn yn galluogi'r staff i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Ceir mynediad gwastad i adeilad yr ysbyty yn uniongyrchol o'r maes parcio a oedd yn cynnig mynediad priodol i bobl ag anawsterau symudedd. Roedd mynedfa'r ysbyty wedi'i diogelu er mwyn atal mynediad anawdurdodedig.

Roedd cynllun yr ysbyty yn cyfrannu at ei leoliad croesawgar a dymunol iawn ac roedd yr amgylchedd yn teimlo'n gartrefol. Roedd yn gadarnhaol gweld bod y cleifion yn rhan o gynnal a chadw'r amgylchedd hefyd. Serch hynny, gwnaethom sylwi y gall cleifion â phroblemau symudedd gael rhywfaint o anhawster wrth ddefnyddio'r cyfleusterau cawod en suite oherwydd lleoliad gris yn yr ardal hon. Gwnaethom hefyd nodi bod angen gwneud rhywfaint o waith cynnal a chadw i'r lawnt yn yr ardd.

Er bod pwyntiau galw am nyrsys o gwmpas yr ystafelloedd gwely ac yn yr ystafelloedd cymunedol, nid oedd unrhyw larymau yng nghoridorau'r wardiau. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio '*walkie-talkies*'. Fodd bynnag, nid oeddem yn fodlon y gallai'r cleifion na'r staff gael gafael ar gymorth ar unwaith petai damwain yng nghoridorau'r wardiau a byddem yn argymhell y dylai'r rheolwr cofrestredig adolygu'r prosesau o ran botymau galw brys a lleoliad y larymau yng nghoridorau'r wardiau.

Roedd y darparwr cofrestredig wedi rhoi system gofnodi electronig ar waith a oedd yn dogfennu'r holl ddiwyddiadau a chwynion. Roedd y system hon yn cefnogi'r staff i nodi ymddygiadau peryglus neu sbardunau ar gyfer y cleifion. Yna gallai'r staff ddefnyddio'r wybodaeth hon i ddatblygu cynlluniau gofal a oedd yn canolbwyntio ar reoli'r risgiau ar gyfer pob claf unigol ac yn cynnwys yr adnoddau staffio yr oedd eu hangen i reoli'r risgiau.

Gwelsom dystiolaeth o rywfaint o achosion o gymryd risgiau cadarnhaol a chyflwyno i beryglon bach yn amgylchedd yr ysbyty a oedd yn briodol ar gyfer y cymysgedd presennol o gleifion. Roedd dodrefn, gosodiadau a ffitiadau'r ysbyty yn briodol i'r grŵp presennol o gleifion hefyd. Fodd bynnag, os yw'r grŵp cleifion y newid dros amser, mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod yr amgylchedd yn datblygu ac yn parhau i fod yn addas ar gyfer unrhyw newidiadau i'r math o gleifion sy'n aros yn yr ysbyty.

Roedd digon o staff yn yr ysbyty ac roedd ganddynt gymysgedd priodol o sgiliau. Roedd therapydd galwedigaethol newydd wedi cael ei benodi a fyddai'n dechrau'r swydd ym mis Awst. Cawsom wybod nad oedd diffyg therapydd galwedigaethol wedi cael effaith andwyol ar weithgareddau'r cleifion gan y byddai'r holl staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r cleifion. Nid oedd unrhyw swyddi gwag eraill o ran y staff yn seiliedig ar y nifer presennol o gleifion yn yr ysbyty, ac roedd yn amlwg bod anghenion y cleifion presennol yn cael eu diwallu.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu lleoliadau pwyntiau galw am nyrsys.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Drwy gydol yr arolygiad gwelsom fod yr ysbyty yn lân yr olwg heb unrhyw annibendod. Roedd yr offer glanhau wedi'i storio a'i drefnu'n briodol. Mae'r staff a'r cleifion yn gyfrifol am gynnal glendid yr ysbyty. Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel bod y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth gan y staff yn seiliedig ar anghenion unigol.

Roedd system gynhwysfawr o archwiliadau rheolaidd ar waith o ran rheoli heintiau. Roedd archwiliadau dyddiol yn cael eu cwblhau a'u ffeilio'n briodol. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty a'u bod yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau. Roedd cyfarpar diogelu personol ar gyfer atal a rheoli heintiau hefyd ar gael i'r staff yn ôl y gofyn.

Roedd trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff. Roedd biniau priodol ar gael i waredu eitemau miniog meddygol. Nid oedd y rhain yn gorlifo.

Roedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael mewn rhai mannau yn yr ysbyty; roedd arwyddion priodol i gyd-fynd â'r rhain, ond nid oedd cynhyrchion hylendid dwylo ar gael wrth fynedfa'r ysbyty a byddem yn argymhell y dylai cynhyrchion o'r fath fod ar gael yn y lleoliad hwn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Darparu cynhyrchion hylendid dwylo wrth fynedfa'r ysbyty.

Maeth

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu cefnogi i ddiwallu eu hanghenion o ran maeth. Fel rhan o brosesau adsefydlu'r cleifion, roedd y staff yn eu cefnogi i gynllunio a pharatoi eu prydau eu hunain neu brydau cymunedol ar gyfer y cleifion a'r staff yn yr ysbyty. Roedd hyn yn helpu'r cleifion i ddatblygu sgiliau coginio a sgiliau ychwanegol, megis paratoi bwydlen a siopa am fwyd, fel rhan o'u gweithgareddau adsefydlu â ffocws cymunedol.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod y cleifion a'r staff yn paratoi ac yn bwyta prydau gyda'i gilydd; dyma weithgaredd cymunedol y gallai'r cleifion a'r staff gymryd rhan ynddo. Roedd dewis da o ffrwythau ffres yn yr ardal gymunedol a oedd ar gael i'r holl gleifion helpu eu hunain.

Roedd cyfleusterau addas ar gael i'r cleifion gael diodydd poeth ac oer. Gwnaethom arsylwi ar y cleifion yn defnyddio cyfleusterau'r gegin i gleifion yn ystod yr arolygiad. Mae'n werth nodi bod gan bob ardal gymunedol fan diodydd a oedd yn galluogi'r cleifion i baratoi eu diodydd eu hunain yn ystod y dydd a'r nos heb iddynt orfod mynd i brif gegin yr ysbyty.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel mewn cypyrddau ac oergelloedd meddyginiaeth dan glo yn y clinig dan glo. Gwelwyd tystiolaeth bod tymheredd yr oergell feddyginiaeth a'r ystafelloedd clinig yn cael ei wirio'n rheolaidd er mwyn sicrhau bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellir gan y gweithgynhyrchydd. Roedd yr ystafell glinigol wedi'i threfnu'n dda iawn ac roedd y cypyrddau wedi'u labelu'n glir. Fodd bynnag, nid oedd llawer o le yn weddill i storio'r meddyginiaethau. Ar adeg yr arolygiad, nid oedd yr ysbyty yn llawn ac roedd lle ar gyfer 11 claf arall. Felly

mae'n bosibl na fyddai digon o le i storio meddyginiaethau yn yr ystafell glinigol pe bai mwy o gleifion yno.

Ar adeg yr arolygiad, roedd yr ysbyty'n profi oedi ac anawsterau gyda chael meddyginiaeth yn brydlon gan ei fferyllfa allanol. Er ein bod yn cydnabod bod yr ysbyty yn dibynnu ar effeithlonrwydd trydydd partïon sy'n rhan o'r broses hon (meddyg teulu a fferyllfa), mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y problemau o ran oedi'n cael eu datrys yn ddi-oed.

Roedd y siartiau Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth (MAR) yn cael eu hadolygu, gan gynnwys copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth. Roedd siartiau MAR yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi, a nodwyd rheswm pan na fyddai meddyginiaeth yn cael ei rhoi. Fodd bynnag, er bod clawr y siartiau MAR yn cynnwys enw'r claf, roedd gwybodaeth berthnasol yr oedd angen ei chwblhau ar y clawr blaen wedi'i hepgor, megis gwybodaeth am alergeddau. Mae'n hanfodol bod y wybodaeth am gleifion yn gyflawn ar bob siart MAR. Yn ogystal, gwnaethom sylwi bod siartiau MAR rhai cleifion yn cynnwys hen Dystysgrifau Cydsynio i Driniaeth wedi'u ffeilio ar y cyd â'r siart. Felly, mae'n bosibl nad yw'r nyrsys cofrestredig yn cyfeirio at y Tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth cywir er mwyn cadarnhau bod meddyginiaeth wedi cael ei hawdurdodi o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r broses archebu meddyginiaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth am gleifion yn gyflawn ar bob siart MAR.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau mai dim ond y Dystysgrif/Tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth ddiweddaraf/diweddaraf sydd wedi'i chynnwys/wedi'u cynnwys yn y siart MAR.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant a oedd yn agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn. Roedd yr arweinydd diogelu enwebedig yn gweithio yn Hafal ac, yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu, roedd yr unigolyn hwn yn darparu'r holl hyfforddiant diogelu ar gyfer yr ysbyty hefyd. Yn ystod ein trafodaethau gyda'r rheolwr cofrestredig, dangosodd ei gwybodaeth yn glir o ran yr hyn sy'n cyfrif fel atgyfeiriad diogelu.

Fel y nodwyd uchod, roedd ystafell ymweld i blant ar gael gyda'i gardd ei hun a oedd yn helpu i hwyluso ymweliadau gan blant yn ddiogel.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Cynhaliwyd archwiliadau clinigol rheolaidd yn yr ysbyty, gan gynnwys archwilio cyfarpar dadebru bob nos. Roedd y staff wedi cofnodi pryd y cynhaliwyd y rhain er mwyn sicrhau bod yr offer yn bresennol.

Roedd nifer o dorwyr pwyntiau clymu ar gael ym mhob rhan o'r ysbyty rhag ofn y byddai argyfwng. Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn amlwg bod pob un ohonynt yn ymwybodol o leoliadau torwyr pwyntiau clymu. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar waith, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion.

Roedd trefniadau llywodraethu clinigol yr ysbyty yn bwydo i mewn i drefniadau llywodraethu canolog Hafal a oedd yn hwyluso proses ddwyffordd o fonitro a dysgu.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd y darparwr cofrestredig yn ymgysylltu'n rhagweithiol â sefydliadau cymheiriaid ac unigolion i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth. Roedd gan yr ysbyty Bwyllgor Cynghori Proffesiynol hefyd a oedd yn adolygu ymarfer a pholisïau ac yn cynghori arnynt. Roedd y pwyllgor yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol ac archwilwyr allanol annibynnol. Roedd yr arfer hwn yn ganmoladwy iawn ac yn dangos tryloywder ac uniondeb yr ysbyty i ymgorffori annibyniaeth yn ei gyfarfodydd llywodraethu ac yng nghyfarfodydd ei Bwyllgor Cynghori Proffesiynol.

Mae'n werth nodi bod yr ysbyty'n ymgysylltu â phrifysgolion lleol lle roedd astudiaethau PhD yn cael eu cynnal a oedd yn darparu gwerthusiadau allanol ychwanegol fel rhan o'r ymchwil academiaidd. Roedd cysylltiadau â cholegau, canolfannau hamdden a mentrau cymunedol lleol yn sicrhau bod y cleifion yn cael mynediad at gyrsiau a gweithgareddau, gan alluogi'r cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn ystod eu hamser yn yr ysbyty a phan fyddant ar absenoldeb heb oruchwyliaeth hefyd. Roedd y staff yn yr ysbyty hefyd wedi'u hyfforddi mewn amrywiaeth o therapïau seicolegol, gan gynnig cyfleoedd i'r cleifion fanteisio ar wahanol fathau o therapïau yn yr ysbyty.

Rheoli cofnodion

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion a oedd yn cael eu storio a'u cadw mewn swyddfeydd oedd dan glo. Gwelsom y staff yn storio'r cofnodion yn briodol yn ystod ein harolygiad. Roedd cofnodion y cleifion yn drefnus iawn ac roedd ansawdd y cofnodion o safon broffesiynol dda. Serch hynny, gwelsom un gyfres o gofnodion clinigol lle roedd cofnod meddygol wedi cael ei groesi allan. Arfer da fyddai rhoi blaenlythrennau a dyddiad ar y cofnod anghywir, ac yna ychwanegu'r cofnod cywir. Roedd yn braf gweld bod yr hyn a nodwyd gan y staff, gan gynnwys adroddiadau ar ddigwyddiadau, yn parchu'r claf ac yn darparu gwybodaeth glir a gwrthrychol.

Roedd nodiadau clinigol yn drefnus iawn ac roedd rhanwyr yn cael eu defnyddio i wahanu adrannau gwahanol. Fodd bynnag, mewn un ffeil a adolygwyd gennym, gwelsom fod yr adran a oedd yn ymwneud â gohebiaeth yn cynnwys tudalennau rhydd ac felly roedd perygl y gallai'r rhain fynd ar goll.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y nodir blaenlythrennau a dyddiad yn glir ar unrhyw gofnodion clinigol sydd wedi cael eu croesi allan.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych dros ddogfennau cadw statudol tri chlaf yn yr ysbyty.

Roedd y dogfennau statudol a adolygwyd yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon. Gwnaethom nodi nad oedd y ffurflenni tystysgrifau cydsynio i driniaeth yn cael eu cynnal yn ddigonol yn yr ysbyty. Roedd ffeiliau rhai o'r cleifion yn cynnwys dogfennaeth nad oedd yn ddilys erbyn hyn, ond nid oedd wedi cael ei marcio i nodi hynny na'i dileu, felly gellid ei chamgymryd fel y ddogfennaeth gyfredol.

Drwy adolygu cofnodion y cleifion, gwelsom fod angen rhoi gwelliannau ar waith a sicrhau cydymffurfiaeth yn y meysydd canlynol hefyd:

- Mae'n ofynnol bod Rheolwyr Ysbytai yn sicrhau bod cleifion sy'n cael eu cadw yn deall y rheswm dros hynny, paragraff 4.2
- Mae'n rhaid dweud wrth gleifion yr hyn y mae'r Ddeddf yn ei ddweud am driniaeth ar gyfer eu hanhwylder meddyliol, paragraff 4.23

- Dylid nodi'n glir ar bob ffurflen absenoldeb o dan Adran 17 sydd wedi dod i ben nad ydynt yn ddilys mwyach, paragraff 27.17
- Dim tystiolaeth bod cofnod yn cael ei gadw o alluedd i gydsynio i driniaeth, paragraff 24.34

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y siartiau MAR yn cynnwys y dystysgrif/tystysgrifau cydsynio i driniaeth g/cyfredol a chyfatebol.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried y ffordd orau o roi gwell dealltwriaeth i staff y ward o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig adolygu ei brosesau gweinyddu er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Chodau Ymarfer Cymru (Diwygiwyd 2016) a darparu rhagor o hyfforddiant er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i'r staff o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom adolygu cynlluniau gofal 2 glaf i gyd.

Roeddent o safon dda ar y cyfan. Roedd y nodiadau a'r cynlluniau gofal y gwnaethom eu harchwilio'n dangos tystiolaeth glir bod y cleifion yn cael eu cynnwys yn eu cynlluniau gofal a thriniaeth. Fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai meysydd i'w gwella

- Nid yw cryfderau'n cael eu hamlygu yn y cynlluniau gofal
- Nid oedd cynllun rheoli risg clinigol Hafal wedi'i ddyddio na'i lofnodi
- Roedd y nodiadau'n adlewyrchu'r ffaith bod meddyginiaeth yn cael ei thrafod mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, nid oedd y nodiadau'n adlewyrchu'r ffaith bod y claf yn cael ei gynnwys yn y broses, nac yn dangos tystiolaeth o hyn.
- Nid oedd anghenion nas diwallwyd yn cael eu nodi yn y cynlluniau gofal.

Mae'n rhaid i'r darparwr sicrhau bod yr holl wybodaeth uchod yn cael ei dogfennu a'i chynnwys yn y cynlluniau gofal.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen llofnodi a dyddio cynllun rheoli risg clinigol Hafal.

Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod anghenion nas diwallwyd yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau gofal cleifion a bod tystiolaeth o hyn.

Dylai Cynlluniau Gofal a Thriniaeth unigol gynnwys cryfderau'r claf a'r ffordd y mae'n cael ei gynnwys mewn trafodaethau ynghylch meddyginiaeth.

Y Ddeddf Galluedd Meddyliol a Threfniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid

Ar adeg ein harolygiad, cadarnhaodd y staff nad oedd unrhyw gleifion yn destun awdurdodiadau o dan y Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Gwelsom reolaeth ac arweinyddiaeth dda yn yr ysbyty a gefnogwyd gan strwythur sefydliadol Hafal. Arsylwyd ar dîm staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda.

Roedd aelodau o staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg ac roedd gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn cyflogaeth ac yn rheolaidd yn ystod cyflogaeth.

Roedd yn gadarnhaol nodi bod cyflwyniad a buddsoddiad yn y rhaglen Mentora Cymheiriaid ar gyfer cleifion.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen dreigl o archwiliadau a'i strwythur llywodraethu sefydledig a oedd yn galluogi aelodau allweddol/enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod canlyniadau clinigol sy'n gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Roedd gan uwch-reolwyr a nodwyd gyfrifoldebau penodol am sicrhau bod y rhaglen lywodraethu yn parhau i fod yn flaenllaw wrth ddarparu gwasanaethau. Roedd y trefniadau hynny'n cael eu cofnodi fel y gellid eu hadolygu yn yr ysbyty ac yn y strwythur sefydliadol ehangach.

Roedd yn gadarnhaol bod staff Canolfan Adferiad Gellinudd, drwy gydol yr arolygiad, yn fodlon derbyn ein barn, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith yn yr ysbyty. Mae'r polisi yn cynnig strwythur i ymdrin â chwynion cleifion ar gyfer gwasanaethau yn yr ysbyty.

Roedd system electronig sefydledig ar waith i gofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau. Roedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi ar y system a oedd yn cynnwys enw'r claf neu'r cleifion a'r staff dan sylw, disgrifiad, lleoliad, amser a hyd y digwyddiad. Roedd hyn yn rhoi data priodol i'r staff nodi tueddiadau a phatrymau ymddygiad.

Roedd hierarchaeth o lofnodi adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn sicrhau eu bod yn cael eu hadolygu mewn modd amserol. Roedd adroddiadau ar ddigwyddiadau yn cael eu paratoi a'u hadolygu'n rheolaidd ar lefel yr ysbyty a'r sefydliad fel y gellid eu hadolygu a'u dadansoddi.

Roedd trefniadau ar waith i ledaenu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau i'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Gwnaethom awgrymu y dylai'r staff lofnodi a dyddio cofnodion cyfarfodydd er mwyn dangos bod pobl wedi'u darllen a'u deall.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y sefydliad staffio yng Nghanolfan Adferiad Gellinudd yn bodloni'r hyn a nodwyd yn y Datganiad o Ddiben. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y tîm amlddisgyblaethol yn sefydledig; roedd y cofnodion a adolygwyd gennym a'r sgysiau a gawsom â'r staff yn dangos bod gwaith tîm amlddisgyblaethol a chydweithredol yma.

Gwnaethom adolygu'r ystadegau o ran hyfforddiant gorfodol a goruchwyliaeth glinigol ar gyfer y staff yn yr ysbyty a gwelsom fod cyfraddau cwblhau yn uchel. Roedd rhaglen hyfforddi fel bod y staff yn cael diweddariadau amserol. Roedd y cofnodion electronig yn rhoi manylion cyfraddau cwblhau cyrsiau i'r uwch-reolwyr, ynghyd â manylion cydymffurfio aelodau unigol o'r staff. Roedd y staff wedi ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant 'hyfforddi'r hyfforddwr' hefyd er mwyn darparu hyfforddiant ar y safle i'r staff. Roedd yr holl staff yn cael Cyfarfodydd Datblygiad Proffesiynol rheolaidd gyda'r uwch-reolwyr a gwelsom dystiolaeth o drafodaethau a chynlluniau ystyrlon a pherthnasol mewn perthynas â datblygiad proffesiynol, a oedd wedi'u cofnodi yng nghofnodion y staff unigol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Hafal oedd yn ymgymryd â'r holl waith recriwtio'n ganolog. Cyn eu cyflogi, roedd geirdaon staff yn cael eu derbyn, roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau.

Felly cawsom ein sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn cael eu recriwtio mewn proses agored a theg a bod gwiriadau cyflogaeth priodol yn cael eu cynnal cyn eu cyflogi.

Roedd proses sefydlu staff ar waith. Mae staff newydd yn ymgymryd â chyfnod prawf am 6 mis a chânt eu cefnogi'n barhaus gan aelod profiadol o'r staff sy'n gyfrifol am gwblhau ffurflen cymhwysedd. Gwnaethom arsylwi ar uwch-aelod o staff yr ysbyty'n monitro myfyrwyr yn rhoi meddyginiaeth i'r cleifion a gwnaethom arsylwi ar fyfyrwyr yn arwain cyfarfod trosglwyddo staff. Roedd hyn yn gadarnhaol iawn ac yn dangos buddsoddiad yr uwch-aelodau o'r staff mewn datblygu, cefnogi a mentora staff newydd.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith er mwyn i'r staff allu mynegi pryderon ac roedd hwn yn cael ei arddangos yn yr ystafell staff. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael hefyd. Mae gan Hafal ei wasanaeth therapi ei hun ar gyfer staff, a gall y staff gael eu hatgyfeirio at aelod mewnol o staff sy'n canolbwyntio ar drawma hefyd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgwyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol

Mae ein harolygiadau o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn cael eu cynnal yn ddirybudd fel arfer. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau iechyd meddwl annibynnol yn ystyried sut mae gwasanaethau yn gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a gweithredu Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid
- Cydymffurfio â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfio â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl annibynnol.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [gwasanaethau iechyd meddwl](#) a [gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|--|--|--|----------------------------------|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Canolfan Adferiad Gellinudd

Ward/uned(au): Canolfan Adferiad Gellinudd

Dyddiad arolygu: 22 – 24 Gorffennaf 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---|---|--------------------------|-------------|
| Ansawdd profiad y claf | | | | |
| Llyfryn gwybodaeth i westeion i gael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r cyfleusterau presennol sydd ar gael yn yr ysbyty. | 3. Hybu, diogelu a gwella iechyd | Llyfryn gwybodaeth i westeion i gael ei adolygu a'i ddiweddarau. | Rheolwr y Ganolfan Adfer | Cwblhawyd |
| Bwrdd arddangos i gynnwys gwybodaeth ychwanegol ar gyfer teuluoedd ac ymwelwyr | 9. Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion | Amseroedd ymweld i gael eu harddangos ar yr hysbysfwrdd presennol | Rheolwr y Ganolfan Adfer | Hydref 2019 |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|--|--------------------------|--|
| Darparu gofal diogel ac effeithiol | | | | |
| Adolygiad o leoliad pwyntiau galw am nyrsys i gael ei gynnal. | 22. Rheoli risg ac iechyd a diogelwch 12. Yr amgylchedd 4. Trefniadau Cynllunio at Argyfyngau | Adolygiad o ddigwyddiadau wedi'i gynnal Dim angen newid ymarfer presennol Nid oes unrhyw ddigwyddiadau hyd yn hyn wedi tynnu sylw at bryder gyda lleoliad presennol botymau galw Caiff <i>walkie-talkies</i> eu rhannu ar bob sifft ac mae'r dull o gysylltu â staff mewn argyfwng wedi'i atgyfnerthu i'r staff | Rheolwr y Ganolfan Adfer | Adolygiad parhaus o ddigwyddiadau <i>Walkie-talkies</i> eisoes wedi cael eu darparu |
| Cynhyrchion hylendid dwylo i gael eu darparu wrth fynedfa'r ysbyty. | 13. Atal a rheoli heintiau a dihalogi | Yn dilyn trafodaeth ag AGIC ac asesiad o'r risg, byddwn yn prynu cynhyrchion ewyn dwylo i'w defnyddio wrth y fynedfa i'r uned. Nid yw cynhyrchion ewyn o'r fath mor effeithiol â gel alcohol, ond mae'n peri llai o risg i'r gwesteion a'r staff o ran perygl llyncu neu dân | Rheolwr y Ganolfan Adfer | Hydref 2019 |
| Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod digon o leoedd i storio meddyginiaeth yn yr ysbyty. | 15. Rheoli meddyginiaethau | Mae'r uned storio meddyginiaethau yn ddigonol ar gyfer hyd at 8 o westeion. Bydd hyn yn cael ei adolygu pan fydd nifer y gwesteion yn cynyddu i 9. Mae | | |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|--------------------|---|--|---------------------------------------|
| <p>Dylai'r darparwr cofrestredig adolygu'r broses archebu meddyginiaeth.</p> <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y wybodaeth am gleifion yn gyflawn ar bob siart MAR.</p> | | <p>mannau storio ychwanegol ar gael yn yr ysbyty a byddem wedi dangos y rhain yn yr arolygiad pe byddem wedi cael cais i wneud hynny.</p> <p>Bydd y broses archebu meddyginiaeth yn cael ei hadolygu gyda'r fferyllfa sy'n cyflenwi, meddygon teulu a'r Seiciatrydd Ymgynghorol.</p> <p>Mae'r holl siartiau'n cynnwys y wybodaeth gywir ar hyn o bryd felly mae hyn wedi'i gwblhau. Datblygwyd archwiliad ar gyfer ffeiliau iechyd corfforol. Cynhelir yr archwiliad hwn bob wythnos a chaiff y canfyddiadau eu trosglwyddo i'r staff perthnasol, h.y. nyrsys sylfaenol ac arweinwyr clinigol. Bydd yr archwiliad o ffeiliau iechyd corfforol yn gallu monitro'r lefel cydymffurfio a sicrhau bod unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio, gan</p> | <p>Rheolwr y Ganolfan Adfer</p> <p>Arweinydd Clinigol/Rheolwr y Ganolfan Adfer</p> | <p>Hydref 2019</p> <p>Hydref 2019</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|--|---------------------------------|--|---|--------------------------------------|
| <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau mai dim ond y Dystysgrif/Tystysgrifau Cydsynio i Driniaeth ddiweddaraf/diweddaraf sydd wedi'i chynnwys/wedi'u cynnwys yn y siart MAR.</p> | | <p>gynnwys colli gwybodaeth cleifion, yn cael eu trosglwyddo ac y gweithredir arnynt. Caiff y siart MAR ei storio yn y ffeil iechyd corfforol.</p> <p>Ar hyn o bryd, mae hyn yn cael ei archwilio'n rheolaidd gan dîm y ddeddf iechyd meddwl ac mae'n rhan o archwiliad annibynnol cyffredinol. Bydd yr archwiliad newydd o ffeiliau iechyd corfforol yn monitro cydymffurfiaeth hefyd. Darperir hyfforddiant yn fisol parthed dogfennaeth y Ddeddf Iechyd Meddwl a bydd hyn hefyd yn nodi'r rhesymau pam mai dim ond y CO2/CO3 diweddaraf sydd angen cael ei gynnwys yn y siart ragnodi a fydd yn cynorthwyo cydymffurfiaeth hefyd.</p> | <p>Rheolwr y Ganolfan Adfer/ Gweinyddwr Deddf Iechyd Meddwl</p> | <p>I ddechrau ym mis Hydref 2019</p> |
| <p>Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y nodir blaenlythrennau a dyddiad yn glir ar unrhyw gofnodion clinigol sydd wedi cael eu croesi allan.</p> | <p>20. Rheoli cofnodion</p> | <p>Angen diweddarau archwiliad o gofnodion clinigol</p> <p>Newidiadau i'r archwiliad i gael eu</p> | <p>Rheolwr y Ganolfan Adfer</p> | <p>Cwblhawyd</p> |

| Yr hyn sydd angen ei wella | Rheoliad/ Safon | Cam gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|--------------------------------|---|--|--|
| | | trosglwyddo i'r holl staff Mae archwiliad llawn o ddogfennaeth glinigol yn cael ei gynnal gan nyrs ymgynghorol ar hyn o bryd. | | |
| Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ystyried y ffordd orau o roi gwell dealltwriaeth i staff y ward o'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Cod Mae'n rhaid i'r darparwr cofrestredig ddarparu hyfforddiant ychwanegol i'r staff ar y Ddeddf Iechyd Meddwl. | Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl | Rhaglen hyfforddiant fisol i gael ei datblygu ar gyfer y tîm o staff. Mae gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl yn astudio ar gyfer Tystysgrif Cyfraith ac Ymarfer Iechyd Meddwl ar hyn o bryd | Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl/ Rheolwr y Ganolfan Adfer | Rhaglen hyfforddiant fisol i ddechrau ym mis Hydref 2019 |
| Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw faes i'w wella. | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys | Ddim yn gymwys |

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alun Thomas

Teitl swydd: Prif Weithredwr; Unigolyn Cyfrifol

Dyddiad: 8/10/19